Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol — National Centre for Learning Welsh





# Adroddiad Blynyddol Annual Report 2020-2021

Llywodraeth Cymru Welsh Government

CYMRAEG Dysgu Learn

# Lefelau dysgu'r sector Dysgu Cymraeg

Mae cyrsiau Dysgu Cymraeg ar gael ar wahanol lefelau, sy'n cyd-fynd â lefelau dysgu fframwaith Cyngor Ewrop.

| Enw'r lefel | Disgrifiad | Lefel dysgu Fframwaith Cyngor Ewrop | Isafswm oriau cyswllt a argymhellir |
| --- | --- | --- | --- |
| **Mynediad** | Cyrsiau ar gyfer dechreuwyr, sy'n cyflwyno geirfa a phatrymau iaith syml ac ymadroddion pob dydd. Mae'r pwyslais ar siarad yr iaith. | A1 | 120 |
| **Sylfaen** | Mae'r lefel hon yn adeiladu ar lefel Mynediad ac yn gofyn am rywfaint o brofiad o'r Gymraeg. Mae'r prif bwyslais ar siarad yr iaith, gyda chyfle i drafod pynciau pob dydd fel y teulu a ffrindiau, gwaith a diddordebau. | A2 | 120 |
| **Canolradd** | Mae'r lefel hon yn adeiladu ar lefel Sylfaen ac yn addas ar gyfer pobl sy'n gyfarwydd â phrif batrymau'r Gymraeg. Mae cyfle i ddatblygu sgiliau sgwrsio, gydag ychydig mwy o waith ysgrifennu, darllen a gwrando. Meithrin siaradwyr hyderus wrth drafod materion pob dydd yw'r prif nod. | B1 | 120 |
| **Uwch** | Dyma gyfle i ymarfer trafod pynciau a themâu o bob math. Bydd dysgwyr hefyd yn datblygu eu sgiliau darllen, ysgrifennu a gwrando. Meithrin siaradwyr hyderus yw'r prif nod. | B2 | 360 |
| **Gloywi** | Mae'r cyrsiau Hyfedredd, sy'n addas ar gyfer dysgwyr rhugl a siaradwyr iaith gyntaf, yn cael eu teilwra ar gyfer anghenion y dosbarth. Y nod cyffredinol yw datblygu sgiliau presennol y myfyrwyr ymhellach a'u helpu i fagu hyder. | | |



# Learning levels in the Learn Welsh Sector

Learn Welsh courses are available at different levels, which correspond to the learning levels of the Common European Framework.

| Name of level | Description | Learning levels of the Common European Framework | Recommended minimum number of contact hours |
| --- | --- | --- | --- |
| **Entry** | Courses for beginners, introducing simple vocabulary and linguistic patterns and everyday phrases. The emphasis is on speaking the language. | A1 | 120 |
| **Foundation** | This level builds on the Entry level and requires some experience of Welsh. The main emphasis is on speaking, with opportunities to discuss everyday subjects such as family and friends, work and interests. | A2 | 120 |
| **Intermediate** | This level builds on the Foundation level and is suitable for those who are familiar with the main patterns of Welsh. There are opportunities to develop conversational skills, with a little more writing, reading and listening. The main aim is to enable learners to become confident speakers when discussing everyday matters. | B1 | 120 |
| **Advanced** | This is an opportunity to discuss all kinds of subjects and themes. Learners also develop their reading, writing and listening skills. The main aim is to enable learners to become confident speakers. | B2 | 360 |
| **Gloywi (Proficiency)** | Proficiency courses, suitable for fluent learners and first language speakers, are tailored to the needs of the class. The general aim is to further develop students' existing skills and help them gain confidence. | | |

# Cynnwys


06 Amdanon ni

08 Darparwyr cyrsiau

10 Croeso

12 Rhagair

16 Dysgwyr a thiwtoriaid sy'n ysbrydoli

24 Amcan Strategol 1: Datblygu rhaglen arloesol o gyrsiau

28 Amcan Strategol 2: Cynlluniau arloesol i ddysgwyr ddefnyddio eu Cymraeg

34 Amcan Strategol 3: Rhwydwaith o ddarparwyr cyrsiau

38 Amcan Strategol 4: Codi proffil y maes

44 Amcan Strategol 5: Sefydlu a chynnal gweithdrefnau

50 Data

50 Cysylltwch â ni




# Contents


07 About us

09 Course providers

11 Welcome

13 Foreword

17 Inspirational learners and tutors

25 Strategic Objective 1: Develop an innovative programme of courses

29 Strategic Objective 2: Pioneering schemes for learners to use their Welsh

35 Strategic Objective 3: Network of course providers

39 Strategic Objective 4: Raise the sector's profile

45 Strategic Objective 5: Establish and maintain support procedures

51 Data

51 Contact us

# Croeso i Adroddiad Blynyddol 2020-2021 y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

# Amdanon ni

**Cefndir**

Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol sy’n gyfrifol am y sector Dysgu Cymraeg i oedolion. Mae’r Ganolfan yn gorff hyd braich wedi’i ariannu gan Lywodraeth Cymru a’i gartrefu ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. Y deilliannau craidd a osodwyd i’r Ganolfan gan y Llywodraeth yw:

- Bod yn sefydliad gweledol sy’n gosod cyfeiriad strategol cenedlaethol i’r sector Dysgu Cymraeg.
- Cynnig arweiniad i ddarparwyr cyrsiau Dysgu Cymraeg i oedolion.
- Codi safonau addysgu a dysgu y sector Dysgu Cymraeg i oedolion.
- Datblygu cwricwlwm cenedlaethol difyr, priodol ac o safon a chynhyrchu adnoddau sy’n addas i bob mathau o ddysgwyr.

**Cynllun Strategol**

Mae Cynllun Strategol y Ganolfan yn cynnwys pum prif amcan:

1. Datblygu rhaglen arloesol o gyrsiau atyniadol ac addas i ddysgwyr gan wneud defnydd llawn o’r dechnoleg ddiweddaraf.
2. Datblygu cynlluniau arloesol i sicrhau cyfleoedd a chyd-destunau i’r dysgwyr ddefnyddio eu Cymraeg yn hyderus.
3. Sefydlu rhwydwaith o ddarparwyr cyrsiau er mwyn cynnig gwasanaeth o ragoriaeth.
4. Codi proffil y maes a chynyddu’r niferoedd sy’n dechrau cyrsiau ac sy’n parhau i ddysgu’r Gymraeg.
5. Sefydlu a chynnal gweithdrefnau i gefnogi’r gwasanaeth.

Mae’r Adroddiad Blynyddol yn adrodd ar gynnydd yn erbyn yr amcanion hynny.

Mae’r gwaith o lunio cynllun strategol newydd wedi’i gwblhau. Mae’r cynllun yn gosod cyfeiriad i’r sector Dysgu Cymraeg ar gyfer 2021 ymlaen, a bydd yr Adroddiad Blynyddol nesaf yn adrodd ar gynnydd yn erbyn amcanion y cynllun hwnnw.

Yn yr Adroddiad Blynyddol, mae lluniau o ddysgwyr sy wedi bod yn dysgu Cymraeg gyda ni.




# Welcome to the National Centre for Learning Welsh Annual Report 2020-2021.

# About us

**Background**

The National Centre for Learning Welsh is responsible for all aspects of the Learn Welsh for adults sector. The Centre is an arm’s length body funded by Welsh Government and hosted by University of Wales Trinity Saint David. The core outcomes set for the Centre by Welsh Government are to:

- Be a visible institution setting a national strategic direction for the Learn Welsh sector.
- Provide leadership for Learn Welsh for adults course providers.
- Raise standards in teaching and learning in the Learn Welsh sector.
- Develop a high quality, appropriate and engaging national curriculum and produce resources suitable for a range of learners.

**Strategic Plan**

The Centre’s Strategic Plan includes five key objectives:

1. Develop an innovative programme of attractive and suitable courses for learners, making full use of the latest technology.
2. Develop innovative schemes to secure opportunities and contexts where learners can use their Welsh with confidence.
3. Establish a network of course providers to offer a service of excellence.
4. Raise the sector’s profile and increase the numbers who start courses and continue to learn Welsh.
5. Establish and maintain service support procedures.

The Annual Report reports on progress against these objectives.

A new Strategic Plan has been formulated. The plan sets direction for the Learn Welsh sector from 2021, and the next Annual Report will report on progress against the aims of that plan.

All pictures featured are of individuals who have been learning Welsh with us.

# Darparwyr cyrsiau y Ganolfan

Mae'r Ganolfan yn gweithio gydag 11 darparwr, sy'n cynnal cyrsiau ar ei rhan ym mhob cwr o Gymru.

| Brand Lleol | Sefydliad | Ardaloedd Llywodraeth Leol |
|---|---|---|
| Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin | Prifysgol Bangor | Gwynedd, Môn, Conwy |
| Dysgu Cymraeg Gogledd Ddwyrain | Coleg Cambria/ Popeth Cymraeg | Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam |
| Dysgu Cymraeg Ceredigion – Powys – Sir Gâr | Prifysgol Aberystwyth | Ceredigion, Powys, Sir Gâr (rhan benodol o'r ddarpariaeth) |
| Dysgu Cymraeg Sir Gâr | Cyngor Sir Gâr | Sir Gâr (rhan benodol o'r ddarpariaeth) |
| Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe | Prifysgol Abertawe | Abertawe, Castell-nedd a Phort Talbot |
| Dysgu Cymraeg Sir Benfro | Cyngor Sir Benfro | Sir Benfro |
| Dysgu Cymraeg Gwent | Coleg Gwent | Mynwy, Casnewydd, Blaenau Gwent, Torfaen, Caerffili |
| Dysgu Cymraeg Y Fro | Cyngor Sir Bro Morgannwg | Bro Morgannwg |
| Dysgu Cymraeg Caerdydd | Prifysgol Caerdydd | Caerdydd |
| Dysgu Cymraeg Morgannwg | Prifysgol De Cymru | Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Pen-y-bont ar Ogwr |
| Dysgu Cymraeg Nant Gwrtheyrn | Canolfan Nant Gwrtheyrn | Cenedlaethol |



# The Centre's course providers

The Centre works with 11 course providers, which deliver courses on its behalf in all parts of Wales.

| Local Brand | Organisation | Local Authority Areas |
|---|---|---|
| Learn Welsh North West | Bangor University | Gwynedd, Anglesey, Conwy |
| Learn Welsh North East | Coleg Cambria/ Popeth Cymraeg | Denbighshire, Flintshire, Wrexham |
| Learn Welsh Ceredigion – Powys – Carmarthenshire | Aberystwyth University | Ceredigion, Powys, Carmarthenshire (specific part of the provision) |
| Learn Welsh Carmarthenshire | Carmarthenshire County Council | Carmarthenshire (specific part of the provision) |
| Learn Welsh Swansea Bay Region | Swansea University | Swansea, Neath and Port Talbot |
| Learn Welsh Pembrokeshire | Pembrokeshire County Council | Pembrokeshire |
| Learn Welsh Gwent | Coleg Gwent | Monmouthshire, Newport, Blaenau Gwent, Torfaen, Caerphilly |
| Learn Welsh The Vale | Vale of Glamorgan County Council | Vale of Glamorgan |
| Learn Welsh Cardiff | Cardiff University | Cardiff |
| Learn Welsh Glamorgan | University of South Wales | Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tydfil, Bridgend |
| Learn Welsh Nant Gwrtheyrn | Nant Gwrtheyrn Welsh Language and Heritage Centre | National |

# Croeso –
# Yr Hybarch Randolph Thomas

**Cadeirydd Bwrdd Cwmni y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol**

Mae'r ffordd greadigol mae'r Ganolfan wedi cynnal ac ymestyn ei gwasanaeth gwerthfawr i'w dysgwyr yn ystod y cyfnod diwethaf yn destun balchder wrth gyflwyno Adroddiad Blynyddol blwyddyn academaidd 2020-2021.

Croesawyd miloedd o ddysgwyr newydd i'n cymuned gefnogol, ac am y tro cyntaf, cyflwynwyd cwrs hunan-astudio lefel gyfan (Mynediad) ar-lein, fel rhan o gynllun arloesol Cymraeg Gwaith, sy'n cryfhau sgiliau Cymraeg yn y gweithle.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Hadolygiad Cyflym o'r Ganolfan ym mis Awst 2021, gydag argymhellion ar draws pum categori: i) Y Ganolfan fel dylanwadwr strategol; ii) Ehangu cylch gwaith y Ganolfan; iii) Darpariaeth y Ganolfan; iv) Rheoli gwybodaeth y Ganolfan a v) Gwaith y Ganolfan yn meithrin partneriaethau.

Mae'r Adolygiad Cyflym yn dilyn adroddiad cadarnhaol Estyn a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021 ar y Ganolfan, oedd yn canmol arweiniad cadarn a phendant y sefydliad, a'r ffordd mae'n cadw budd dysgwyr yn ganolog i'w holl weithgarwch.

Wrth i'r Ganolfan symud i bennod newydd yn ei hanes, edrychwn ymlaen at drafod a gwireddu argymhellion cyffrous yr Adolygiad Cyflym ac at rannu arferion gorau gyda sefydliadau a sectorau eraill.

Hoffwn ddiolch i dîm gweithgar y Ganolfan am eu mentergarwch a'u brwdfrydedd, ac i fy nghyd-aelodau o Fwrdd y Cwmni ac i Gadeirydd Bwrdd Ymgynghorol y Ganolfan, Rheon Tomos, a'r holl aelodau, am eu cefnogaeth.

# Welcome –
# The Venerable Randolph Thomas

**Chair of the Board of Directors of the National Centre for Learning Welsh**

The creative way in which the Centre has maintained and extended its valuable service to learners over the past year is a source of pride as we publish our Annual Report for the 2020-2021 academic year.

We welcomed thousands of new learners to our supportive community, and for the first time, introduced an online self-study course to complete a full level (Mynediad/Entry), as part of the pioneering Work Welsh scheme, which aims to strengthen Welsh language skills in the workplace.

The Welsh Government published its Rapid Review of the Centre in August 2021, with recommendations across five categories: i) The Centre as a strategic influencer; ii) Extending the Centre's remit; iii) The Centre's provision; iv) The Centre's information management and v) The Centre's partnership work.

The Rapid Review follows Estyn's positive report published in March 2021, which praised the organisation's robust and decisive leadership, which keeps learners' interests at the heart of all its activity.

As the Centre moves to a new chapter in its history, we look forward to discussing and realising the exciting recommendations of the Rapid Review and to sharing best practice with other organisations and sectors.

I would like to thank the Centre's hardworking team for their enterprise and enthusiasm. I would also like to thank my fellow members on the Board of Directors and Rheon Tomos, chair of the Centre's Advisory Board, and all its members, for their support.



# Rhagair –
# Efa Gruffudd Jones

**Prif Weithredwr y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol**




Cynyddu’r niferoedd sy’n mwynhau dysgu a defnyddio’r Gymraeg yw uchelgais y Ganolfan a bu’r flwyddyn ddiwethaf yn gyfle i fwrw golwg ar y camau breision a gymerwyd i gryfhau’n gwasanaeth, yn ogystal â chynllunio ar gyfer y cyfnod cyffrous nesaf.

Mae wedi bod yn bleser croesawu miloedd o ddysgwyr newydd atom, gyda’r data diweddaraf ar gyfer 2019-2020 yn dangos cynnydd o 32% yn y niferoedd a ddysgodd Gymraeg gyda ni – newyddion calonogol, yn enwedig o ystyried holl heriau’r pandemig.

Ro’n ni’n falch o dderbyn adroddiad Estyn ar y Ganolfan yn gynharach eleni. Nododd Estyn ein bod yn cyfrannu’n effeithiol at nod Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a’n bod ni’n llais cenedlaethol, dylanwadol i’r sector.

Mae rhoi dysgwyr yn gyntaf wrth galon ein Cynllun Strategol newydd ar gyfer 2021 ymlaen. Mae’r Cynllun yn cyflwyno amcanion o dan y penawdau canlynol:

- **Denu:** Agor drysau i ddysgu’r Gymraeg a denu mwy i’w dysgu.
- **Dysgu:** Darparu cyfleoedd dysgu amrywiol ac o ansawdd uchel.
- **Defnyddio:** Cefnogi defnydd o’r Gymraeg gan ddysgwyr yn eu bywydau pob dydd.

Byddwn yn cynllunio’r ddarpariaeth yn strategol, ac yn rhoi sylw i welliant parhaus, gan sicrhau trefniadau rheoli a llywodraethiant cadarn.

Mae’r pwyslais ar arloesi digidol a gweithio’n bartneriaethol yn parhau, er mwyn ymestyn y dewisiadau i’n dysgwyr.



# Foreword –
# Efa Gruffudd Jones

**Chief Executive of the National Centre for Learning Welsh**

Increasing the number of people who enjoy learning and using the Welsh language is the Centre’s aim, and the past year has allowed us an opportunity to reflect on the major steps we’ve taken to strengthen our service, while also planning for the exciting period ahead.

It has been a pleasure to welcome thousands of new Welsh learners on our courses, with the latest data for 2019-2020 showing an increase of 32% in the number who learned with us – positive news, especially in light of the pandemic’s challenges.

We were pleased to receive Estyn’s report on the Centre earlier this year. Estyn says the Centre contributes effectively to the Welsh Government’s aim of achieving a million Welsh speakers by 2050, and that we have become an influential, national voice for the sector.

Putting our learners first is at the heart of our new Strategic Plan for 2021 onwards. The Plan sets out our objectives under the following headings:

- **Attract:** Open doors to learning Welsh and attract more people to learn the language.
- **Teach:** Provide a range of high-quality learning opportunities.
- **Use:** Support the use of Welsh by learners in their everyday lives.

We will plan the provision strategically, striving for continuous improvement and ensuring robust management and governance structures.

Our emphasis on digital innovation and working collaboratively continues, in order to extend the choices for our learners.

Datblygwyd cwrs hunan-astudio newydd ar lefel Mynediad – sy'n gyfwerth â 120 awr yn y dosbarth – ac mae mwy i ddilyn. Mae cyrsiau cyfunol ar lefelau dysgu gwahanol hefyd wedi'u cyflwyno.

Mae'r Ganolfan wedi sefydlu partneriaethau gyda SaySomethinginWelsh a Duolingo, i greu cyfleoedd newydd i'n dysgwyr ymarfer eu Cymraeg a magu hyder i ddefnyddio'r iaith.

Dw i'n falch, hefyd, o'r gwaith sy'n digwydd i sicrhau bod ein hadnoddau a'n gwersi mor gynhwysol â phosibl – mae hyn yn cynnwys darparu cwrs ac adnoddau 'Croeso i Bawb' i bobl nad yw'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt a chynnal grwpiau ffocws er mwyn cywain barn ein dysgwyr.

Ym mis Awst fe gyhoeddodd y Llywodraeth ei Hadolygiad Cyflym o'r Ganolfan. Mae'r Adolygiad yn argymell newidiadau posib i'n cylch gwaith, gan gynnwys datblygu'r Ganolfan yn hwb ar gyfer arloesi addysgol. Mae ehangu'r ddarpariaeth i gynnwys pobl 16 – 18 oed sydd wedi astudio'r Gymraeg fel pwnc mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn argymhelliad cyffrous arall.

Wrth i ni edrych ymlaen at drafod a gweithredu'r argymhellion cadarnhaol hyn, hoffwn ddiolch yn enfawr i'm cyd-weithwyr ac i holl staff y sector Dysgu Cymraeg deinamig hwn.
























Dysgwyr Dysgu Cymraeg Caerdydd. Learn Welsh Cardiff learners.

We introduced a new self-study Entry-level course – which is the equivalent of 120 hours in the classroom – with more to follow. New blended learning courses at different learning levels have also been introduced.

The Centre has established partnerships with SaySomethinginWelsh and Duolingo, to create new opportunities for our learners to practise their Welsh and gain confidence to use the language.

I'm also pleased with the work we're undertaking to ensure our resources and lessons are as inclusive as possible – this includes developing a course and resources called 'Croeso i Bawb' (All are Welcome), for people who do not have English as a first language, and holding focus groups to seek learners' opinions.

In August, the Government published its Rapid Review of the Centre. The Review recommends possible changes to the Centre's remit, including developing the Centre as a hub for educational innovation. Extending our provision to include people aged 16-18 who have studied Welsh in English-medium schools is another exciting recommendation.

As we look forward to discussing and putting these positive recommendations into action, I would like to say a huge 'diolch' to my colleagues and to all the staff working in this dynamic Learn Welsh sector.

# Dysgwyr sy'n ysbrydoli

**David Thomas – Dysgwr y Flwyddyn yr Eisteddfod AmGen**

Yn ôl David Thomas, Dysgwr y Flwyddyn Eisteddfod AmGen 2021, mae dysgu Cymraeg wedi bod yn brofiad anhygoel, sydd wedi trawsnewid ei fywyd.

Mae David yn ystyried ei hun yn un o'r 'genhedlaeth goll', na chafodd gyfle i ddysgu'r iaith pan oedd yn blentyn yng Nghaerdydd yn y 1970au a'r 1980au. Ar ôl gadael Cymru i fynd i'r brifysgol, bu'n byw yn Lloegr am flynyddoedd, ond daeth cyfle i David, a'i ŵr, Anthony, symud i Sir Gaerfyrddin.

Fe ddechreuodd David ddilyn cyrsiau Dysgu Cymraeg ac mae bellach yn siarad yr iaith yn naturiol ac yn ei defnyddio ym mhob agwedd ar ei fywyd. Mae David ac Anthony wedi dechrau menter wledig, Jin Talog, ac mae'r Gymraeg yn rhan ganolog o'r busnes, fel yr eglura David:

"Ro'n i eisiau gwasanaethu ein cwsmeriaid trwy gyfrwng y Gymraeg a dw i'n defnyddio'r iaith bob dydd yn y gwaith. Mae cysylltu gyda chwsmeriaid yn Gymraeg ar y ffôn, drwy e-bost neu ar y cyfryngau cymdeithasol wedi fy helpu i feistroli'r iaith."

Mae David yn angerddol am y cyfleoedd mae'r Gymraeg yn eu rhoi i chi a gallu'r Gymraeg, fel sgil ymarferol, i drawsnewid bywydau. Wrth ddysgu'r iaith, mae David wedi ymchwilio i'w achau a darganfod bod ei gyndeidiau yn siarad Cymraeg – mae'n teimlo, felly, ei fod wedi ad-ennill ei etifeddiaeth hefyd.




# Inspirational learners

**David Thomas – Eisteddfod AmGen Learner of the Year**

According to David Thomas, Eisteddfod AmGen 2021 Learner of the Year, learning Welsh has been an amazing experience that has transformed his life.

David considers himself part of the 'lost generation' who did not get the opportunity to learn the language when he was a child in Cardiff in the 1970s and 1980s. After leaving Wales to go to university, he lived in England for years, but an opportunity arose for David, and his husband, Anthony, to move to Carmarthenshire.

David started following Learn Welsh courses and he now speaks the language naturally and uses it in all aspects of his life. David and Anthony established the rural enterprise, Jin Talog, and the Welsh language is central to the business, as David explains:

"I wanted to provide a service for our customers through the medium of Welsh and I use the language every day at work. Contacting customers in Welsh over the phone, through e-mail or on social media has helped me master the language."

David is passionate about the opportunities the Welsh language open for you, and how the language, as a practical skill, is able to transform lives. Whilst learning the language, David has researched his ancestry and has found that his forebears spoke Welsh, so he also feels that he has regained his heritage.

# Dysgwyr sy'n ysbrydoli

**Liz Day – Dysgu Cymraeg**

Flwyddyn ar ôl dechrau dysgu Cymraeg, mae Liz Day wedi ennill gwobr 'Dechrau Arni – Dysgwyr Cymraeg' fel rhan o Wobrau Ysbrydoli! y Sefydliad Dysgu a Gwaith. Penderfynodd Liz ddilyn cwrs Dysgu Cymraeg ar ôl cael ei diswyddo yn ystod haf 2020, ac mae wedi mwynhau pob eiliad o'r daith.

Meddai Liz: "Ro'n i eisiau dysgu Cymraeg flynyddoedd yn ôl ond doedd gen i ddim amser. Ro'n i'n caru fy swydd ond ro'n i'n barod am sialens newydd. Felly ar ôl cael fy niswyddo, gwnes i benderfynu rhoi cynnig arni."

Mae Liz wedi treulio 240 o oriau yn dysgu mewn dosbarthiadau hyd yn hyn ac wedi cwblhau lefelau Mynediad, Sylfaen a Chanolradd (rhan 1). Mae Liz yn ysgrifennu blog er mwyn rhannu ei phrofiadau gyda dysgwyr eraill, ac mae'n recordio podlediadau gyda dysgwyr diddorol hefyd.

Ychwanega: "Gwnes i benderfynu sefydlu Liz Learns Welsh er mwyn adrodd fy hanes yn y gobaith o ysbrydoli eraill i ddysgu'r iaith. Dw i'n mwynhau dod i adnabod fy nghyd-ddysgwyr drwy'r blog, mae'r gymuned dysgu Cymraeg mor gefnogol ac yn llawn anogaeth."

> "Ro'n i eisiau dysgu Cymraeg flynyddoedd yn ôl ond doedd gen i ddim amser. Ro'n i'n caru fy swydd ond ro'n i'n barod am sialens newydd. Felly ar ôl cael fy niswyddo, gwnes i benderfynu rhoi cynnig arni."





# Inspirational learners

**Liz Day – Learn Welsh**

Just one year after starting to learn Welsh, Liz Day has won the 'Starting Out – Welsh Beginner' award at the Learning and Work Institute's Inspire! Awards. Liz decided to do a Learn Welsh course after being made redundant during the summer of 2020, and she has enjoyed every moment of the journey.

Liz said: "I wanted to learn Welsh years ago, but I didn't have the time. I loved my job but I was ready for a new challenge. So after my redundancy, I decided to give it a go."

Liz has spent 240 hours learning in classes thus far and she has completed the Entry, Foundation and Intermediate (part 1) levels. Liz writes a blog to share her experiences with other learners, and she also records podcasts with interesting learners.

She added: "I decided to establish Liz Learns Welsh so I could tell my story in the hope that I could inspire others to learn the language. I enjoy getting to know my fellow learners through the blog, the Welsh learners' community is so supportive and full of encouragement."

> "I wanted to learn Welsh years ago, but I didn't have the time. I loved my job but I was ready for a new challenge. So after my redundancy, I decided to give it a go."

# Dysgwyr sy'n ysbrydoli

**Joshua Osborne – Dysgu Cymraeg**

Mae dysgu Cymraeg wedi helpu Joshua Osborne, sy'n dod o Dorset yn wreiddiol, ddygymod â'r pandemig. Dechreuodd Joshua ddysgu Cymraeg tra'n astudio gradd meistr ym Mhrifysgol Caergrawnt.

Erbyn hyn, mae wedi symud i Abertawe, ac yn byw yno gyda'i bartner, sy'n siarad Cymraeg.

Mae Joshua bellach yn siarad Cymraeg yn hyderus, ac mae wedi ennill gwobr 'Dechrau Arni – Dysgwyr Cymraeg' fel rhan o Wobrau Ysbrydoli! y Sefydliad Dysgu a Gwaith, ar y cyd â Liz Day.

Yn ystod y cyfnod clo, roedd y dosbarth Cymraeg yn rhoi strwythur i ddiwrnod Joshua. Meddai: "Roedd y dosbarth Cymraeg yn fy nghadw yn brysur ac yn ffordd o basio'r amser. Mewn cyfnod ansicr, roedd mynychu dosbarth rheolaidd o gymorth ac mi wnaeth wella fy iechyd meddwl."

Roedd Joshua mor falch o glywed am y wobr a hoffai annog eraill i ddysgu Cymraeg: "Rhowch gynnig arni! Mae'r cyrsiau yn hyblyg a dych chi'n gallu dysgu yn gyflym. Ro'n i mor hapus o dderbyn y wobr ac mae fy niolch yn fawr i fy nhiwtoriaid Helen, Gareth ac Angharad."

"Mewn cyfnod ansicr, roedd mynychu dosbarth rheolaidd o gymorth ac mi wnaeth wella fy iechyd meddwl."





# Inspirational learners

**Joshua Osborne – Learn Welsh**

Learning Welsh has helped Joshua Osborne, who is from Dorset originally, to cope with the pandemic. Joshua started to learn Welsh whilst studying for a master's degree at Cambridge University.

He has now moved to Swansea, and lives there with his partner, who speaks Welsh.

Joshua now speaks Welsh confidently, and won the 'Starting Out - Welsh Beginner' award at the Learning and Work Institute's Inspire! Awards, jointly with Liz Day.

During lockdown, the Welsh class provided a structure to Joshua's day. He said: "The Welsh class kept me busy and was a way of passing the time. In a period of uncertainty, attending a class regularly helped me and it improved my mental health."

Joshua was delighted to hear about the award and he would like to encourage others to learn Welsh: "Go for it! The courses are flexible and you can learn quickly. I was so happy to receive the award and I'm really grateful to my tutors, Helen, Gareth and Angharad."

"In a period of uncertainty, attending a class regularly helped me and it improved my mental health."

# Tiwtoriaid ysbrydoledig

**Heddwen Roberts - tiwtor a mentor**

Yn arwain ac yn ysbrydoli'r dysgwyr mae tiwtoriaid y sector Dysgu Cymraeg. Mae tua 500 ohonynt yn gweithio yn y maes.

Heddwen Roberts yw un o enillwyr Gwobrau Tiwtoriaid Ysbrydoli! Cymru eleni, sy'n dathlu llwyddiannau tiwtoriaid a mentoriaid eithriadol. Tiwtor gyda Dysgu Cymraeg Ceredigion - Powys - Sir Gâr ydy Heddwen ac mae hi'n dysgu tua 60 o ddysgwyr bob wythnos, yn amrywio o lefel Mynediad i lefel Uwch.

Yn sgîl y pandemig, bu'n rhaid i Heddwen addasu'n gyflym i ddysgu ar-lein, fel yr eglura: "Pan ddechreuodd y cyfnod clo, ro'n i'n dal i diwtora drwy'r post a thros y ffôn, ac yna daeth Zoom!

Roedd gen i lawer i'w ddysgu mewn cyfnod byr er mwyn symud i ddysgu ar-lein, ond dw i'n credu mod i wedi ateb yr her ac wedi mynd â'r myfyrwyr gyda fi!"

Mae Heddwen wrth ei bodd yn ei gwaith ac yn ceisio cael cymaint o hwyl â phosib yng nghwmni ei dysgwyr: "Dw i'n hoffi gwneud y dosbarthiadau yn hwyl ac yn real, felly 'dyn ni'n trafod materion cyfoes a phethau sy'n berthnasol i fywydau'r dysgwyr. Dw i'n cael cymaint o bleser wrth addysgu ac mae'r dysgwyr yn fy ysbrydoli i."

# Inspirational tutors

**Heddwen Roberts - tutor and mentor**

The learners are led and inspired by the Learn Welsh sector's tutors. There are approximately 500 of them working in the field.

Heddwen Roberts is one of this year's winners of the Inspire! Tutor Awards, which celebrates the successes of Wales's extraordinary tutors and mentors. Heddwen is a tutor with Learn Welsh Ceredigion - Powys - Carmarthenshire and she teaches about 60 learners every week, at all levels from Entry to Advanced.


Because of the pandemic, Heddwen had to adapt quickly to online teaching, as she explains: "At the beginning of lockdown, I was still tutoring through the post and over the phone, then along came Zoom!

I had a lot to learn in a short period of time to move to online learning, but I think I took up the challenge and brought the learners along with me!"

Heddwen loves her work and tries to have as much fun as possible with her learners: "I like to make the lessons fun and real, so we discuss current affairs and things that are relevant to the learners' lives. I get so much pleasure from teaching and the learners inspire me."



# Amcan Strategol 1:




### Llyfrau cwrs newydd


Mae llyfrau cwrs cenedlaethol bellach ar gael ar bob lefel, gan gynnwys 'Croeso i Bawb', cwrs blasu i ddysgwyr nad yw'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt. Mae'r Ganolfan yn gwneud ymdrech barhaus i fireinio'r cyrsiau a chafodd pob tiwtor yng Nghymru wahoddiad i gyfrannu at y broses o wella cwrs Mynediad, fersiwn dau, gafodd ei gyhoeddi fis Mehefin.

### Cyrsiau cyfunol cenedlaethol

Ym mis Mai 2020 lansiwyd cyrsiau cyfunol am y tro cyntaf. Yn y cyrsiau hyn, cyflwynir 25% o'r cynnwys ymlaen llaw ar ffurf deunyddiau digidol, yr hyn a elwir yn 'ddysgu fflip'. Erbyn hyn, mae Mynediad a Sylfaen 1 ar gael a bydd Sylfaen 2 a Chanolradd yn cael eu datblygu y flwyddyn nesaf. Mae rhai o'r adnoddau newydd hyn ar gael i bob dysgwr ar blatfform digidol y Ganolfan, dysgucymraeg.cymru.



# Strategic Objective 1:




### New coursebooks

National coursebooks are now available at all levels, including 'Croeso i Bawb' (All are Welcome), a taster course for learners whose first language is not English. The Centre is continuously striving to adapt and refine the courses and every tutor in Wales was invited to contribute to the process of improving the Entry-level course in advance of the publication of its second edition in June.

### National blended learning courses

In May 2020, blended learning courses were launched for the first time. In these courses, 25% of the content is presented beforehand as digital content, in a method known as 'flipped learning'. The Entry level and Foundation 1 are now available and Foundation 2 along with the Intermediate level will be developed over the next year. Some of these new resources are available to all learners on the Centre's digital platform, learnwelsh.cymru.

## Cefnogi tiwtoriaid i ddysgu ar-lein

Cyhoeddwyd Canllawiau Dysgu Ar-lein ar y platfform digidol ac mae cwblhau'r canllawiau hyn yn rhan o hyfforddiant pob tiwtor.  Mae llu o adnoddau eraill wedi eu cyhoeddi ar-lein i gefnogi tiwtoriaid, gan gynnwys adrannau gwaith cartref y cyrsiau cenedlaethol.

## Gwersi cyfoes

Cyhoeddir cyfres o wersi cyfoes bob blwyddyn, i ategu'r dysgu ar lefel Uwch.  Yn 2020-2021, cyhoeddwyd y canlynol:

- Bywydau Duon o Bwys
- Hoff ganeuon dysgwyr Cymraeg
- Casgliadau Celf
- Am Dro (cyfres S4C)
- Haf o Chwaraeon

## Cynhadledd genedlaethol

Cynhaliwyd y gynhadledd flynyddol yn rhithiol ar 26 Mehefin, gyda 160 o diwtoriaid a staff eraill y darparwyr cyrsiau yn ymuno o bob rhan o Gymru. Cafwyd anerchiad gan Jeremy Miles, Gweinidog Addysg a'r Gymraeg newydd Llywodraeth Cymru, wnaeth bwysleisio'r rôl allweddol sydd gan y Ganolfan i'w chwarae wrth geisio cyflawni nod y Llywodraeth o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg.

## Cynwysoldeb

Mae cynwysoldeb yn agwedd bwysig ar waith y Ganolfan.  Er mwyn ceisio deall sut orau i gynnwys pawb yn ein holl weithgarwch, cynhaliwyd cyfres o grwpiau ffocws er mwyn cywain barn ein dysgwyr. Lluniwyd cynllun gweithredu yn sgîl hynny ac mae amserlen wedi'i chytuno ar gyfer adrodd ar gynnydd.  Ymhlith y cerrig milltir pwysig a gyflawnwyd yn 2020-2021 mae darparu cwrs ac adnoddau 'Croeso i Bawb' i bobl nad yw'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt, gwella cynrychiolaeth yn fersiwn dau y Cwrs Mynediad, darparu llyfr llafar lefel Mynediad, a chynnal hyfforddiant ar ragfarn ddiarwybod yn ein cynhadledd genedlaethol ac mewn cyfarfod staff mewnol.

## Supporting tutors with online teaching

Online teaching guidance was published on the digital platform and this guidance formed part of every tutor's training.  A range of other resources have been published online to support tutors, including the homework sections of the national courses.

## Contemporary lessons

A series of contemporary lessons are published every year, to supplement the learning at the Advanced level.  In 2020-2021, the following were published:

- Black Lives Matter
- Welsh learners' favourite songs
- Art Collections
- Am Dro (S4C series)
- A Summer of Sport


## National conference

The national conference was held virtually on 26 June, with 160 tutors and other staff from the course providers joining from all parts of Wales. The conference was addressed by Jeremy Miles, the Welsh Government's new Minister for Education and the Welsh Language, and he emphasized the key role the Centre has to play in helping the Government to achieve its target of a million Welsh speakers.

## Inclusion

Inclusion is an important aspect of the Centre's work.  To develop our understanding of how best to include everyone in all our activities, a series of focus groups were held to gather our learners' opinions.  As a result, an action plan was drawn up and a timetable agreed for reporting on progress. The important milestones achieved in 2020-2021 include the provision of the 'Croeso i Bawb' (All are Welcome) course and resources for people whose first language is not English, improving representation in the second issue of the Entry coursebook, providing an audio book at Entry level, and providing training on unconscious bias in our national conference and in an internal staff meeting.













# Amcan Strategol 2:




## Cymraeg Gwaith


Cymraeg Gwaith yw cynllun poblogaidd y Ganolfan i gryfhau sgiliau dwyieithog mewn gweithleoedd ledled Cymru. Mae'r Ganolfan yn gweithio gyda'i darparwyr i gynnig ystod o gyrsiau, gan gynnwys cyrsiau blasu ar-lein wedi'u teilwra ar gyfer gwahanol sectorau, a chyrsiau dysgu dwys.

O ganlyniad i'r pandemig, cafwyd toriad i gyllideb y cynllun, a bu'n rhaid ei ail-wampio, gyda'r nod o barhau i gynnig gwasanaeth hyblyg i gyflogwyr. Cyflwynwyd datblygiadau digidol newydd, gan gynnwys cwrs hunan-astudio lefel gyfan (Mynediad), sy'n gyfwerth â 120 awr yn y dosbarth; bydd cyrsiau ar lefelau eraill yn cael eu cyflwyno maes o law. Mae'r cwrs yma yn boblogaidd – yn enwedig gyda'r rheiny sy'n gweithio oriau shifft – ac mae dros 1,000 yn ei ddilyn hyd yma.

Mae cyllideb Cymraeg Gwaith wedi'i hadfer ar gyfer 2021-2022, a bydd y Ganolfan yn canolbwyntio ar ddatblygu cynlluniau newydd gyda gwahanol sectorau. Mae'r gwaith hwnnw yn cynnwys parhau gyda'r cynllun llwyddiannus ar gyfer y sectorau Addysg Bellach, Addysg Uwch a Gofal Plant. Mae prosiectau newydd hefyd ar y gweill gyda'r sector Iechyd a Gofal ac addysg ysgolion.



# Strategic Objective 2:




## Work Welsh

Work Welsh is the Centre's popular programme to strengthen bilingual skills in workplaces throughout Wales. The Centre works with its providers to offer a range of courses, including tailored online taster courses for different sectors, and intensive learning courses.

As a result of the pandemic, there was a cut to the scheme's budget, and it had to be revamped, with the aim of continuing to offer a flexible service for employers. New digital developments were introduced, including a self-study course for a full level (Entry), which equates to 120 classroom contact hours; courses at other levels will be introduced in due course. This course is popular – especially amongst shift workers – and it is being undertaken by more than 1,000 learners thus far.

The budget for Work Welsh has been restored for 2021-2022, and the Centre will focus on developing new plans with different sectors. This work includes continuing the successful scheme for the Further Education, Higher Education and Childcare sectors. New projects are also being developed with the Health and Care sector and school education.

## Cymraeg yn y Cartref

Cymraeg yn y Cartref yw rhaglen Dysgu Cymraeg newydd y Ganolfan ar gyfer rhieni a gofalwyr plant ifanc. Mae'r rhaglen yn cymryd lle'r cyrsiau 'Cymraeg i'r Teulu' blaenorol ac mae'n cwmpasu sawl elfen:

- Clwb Cwtsh – cynllun ar y cyd gyda Mudiad Meithrin i gyflwyno'r Gymraeg i rieni a gofalwyr mewn awyrgylch anffurfiol.
- Cyrsiau lefel Mynediad ar gyfer dechreuwyr.
- Pecyn ar-lein sy'n cyflwyno gwybodaeth am addysg Gymraeg i rieni a gofalwyr, gan gynnwys geirfa a phatrymau iaith syml.

Mae sesiynau'r Clwb Cwtsh wedi'u cynnal yn rhithiol trwy gydol y pandemig, ac yn y Gwanwyn fe ddechreuodd cyrsiau Cymraeg yn y Cartref cenedlaethol newydd.

## Croeso i Bawb

Mae cwrs blasu newydd i ddysgwyr nad yw'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt wedi'i gyflwyno, o'r enw 'Croeso i Bawb'. Mae'r Ganolfan wedi sefydlu cynllun grant i gefnogi darparwyr i gynnig y cwrs am ddim i ddysgwyr, neu i gynnig cefnogaeth gyda chostau megis gofal plant.

Clwb Cwtsh
meithrin.cymru/clwbcwtsh





Dysgwyr ar gwrs Cymraeg i'r Teulu a gynhaliwyd yn Llangrannog yn ystod 2020.
Pictures from Welsh for the Family course held in Llangrannog during 2020.



## Welsh at Home

Welsh at Home is the Centre's new Learn Welsh programme for parents and carers of young children. The programme replaces the previous 'Welsh for the Family' courses and includes several elements:


- Clwb Cwtsh – a scheme held in conjunction with Mudiad Meithrin to introduce Welsh to parents and carers in an informal setting.
- Entry level courses for beginners.
- An online package that provides information about Welsh-medium education for parents and carers, including some basic vocabulary and language patterns.


Clwb Cwtsh sessions have been held virtually throughout the pandemic, and in the spring, new national Welsh at Home courses started.


## Croeso i Bawb

A new taster course for learners whose first language is not English has been introduced, entitled 'Croeso i Bawb' (All are Welcome). The Centre has established a grant scheme to support providers to offer the course free of charge for learners, or to offer support with costs such as childcare.



## Cefnogi Dysgwyr

Drwy gydol y flwyddyn, mae'r Ganolfan a'i darparwyr yn trefnu digwyddiadau rheolaidd er mwyn rhoi cyfleoedd ychwanegol i'n dysgwyr fwynhau defnyddio eu Cymraeg. Yn ystod 2020-2021, cafodd y digwyddiadau canlynol eu trefnu:

### Sadwrn Siarad Calan Mai
Daeth dros 700 o ddysgwyr ynghyd i gymryd rhan mewn Sadwrn Siarad rhithiol ddechrau Mai. Cynhaliwyd gwersi yn ystod y bore a rhoddwyd cyfle i'r dysgwyr sgwrsio yn ogystal â gwrando ar y gantores Gwyneth Glyn yn y prynhawn. Hoffai'r Ganolfan ddiolch i aelodau Merched y Wawr a thiwtoriaid am eu cymorth parod yn y sesiynau sgwrsio yn y prynhawn.

### Amdani
Am y tro cyntaf, cynhaliwyd Amdani Gŵyl Ddarllen Dysgu Cymraeg ddechrau mis Mawrth. Nod yr ŵyl rithiol oedd annog dysgwyr i ddefnyddio a mwynhau eu Cymraeg trwy ddarllen ystod o ddeunyddiau. Dangoswyd fideos o straeon y cyfrolau i ddysgwyr, Ffenest ac Agor y Drws, a chyhoeddwyd erthyglau ar gyfer dysgwyr ar wefan Golwg360. Yn ychwanegol, cyhoeddwyd stori fer gan Llŷr Gwyn Lewis a cherdd gan Terwyn Tomos, mewn cydweithrediad â'r Eisteddfod Genedlaethol, a darlledwyd eitemau ar Radio Cymru. Llwyddiant y gyfres o lyfrau i ddysgwyr, Amdani, oedd y sbardun ar gyfer sefydlu'r ŵyl.

### Siarad
Mae cynllun gwirfoddol Siarad, sy'n paru dysgwr gyda siaradwr rhugl, yn mynd o nerth i nerth. Yn ystod 2020-2021, mae 250 o barau wedi cyfarfod yn rhithiol yn bennaf, a chynhaliwyd digwyddiad rhithiol arbennig i ddathlu'r cynllun ym mis Gorffennaf.

### Wythnos Dathlu Dysgu Cymraeg Radio Cymru
Yn ystod Wythnos Dathlu Dysgu Cymraeg Radio Cymru ym mis Hydref 2020, cafwyd eitemau am, ac ar gyfer, dysgwyr ar raglenni'r orsaf ar draws yr wythnos. Cafodd pleidlais Hoff Gân Gymraeg y Dysgwyr ei chynnal ac Yma o Hyd gan Dafydd Iwan oedd y gân a ddaeth i'r brig.

### Eisteddfod AmGen
Bu'r Pentref Dysgu Cymraeg rhithiol yn rhan o'r Eisteddfod AmGen, gyda rhaglen lawn o weithgareddau. Un o'r uchafbwyntiau oedd Nosweithiau Whodunnit. Bwriad y nosweithiau hyn oedd rhoi cyfle i ddysgwyr ddatrys dirgelwch ar ôl darllen stori fer Y Treiglad Olaf gan Pegi Talfryn yng nghylchgrawn Hwyl yr Haf y Ganolfan. Cynhaliwyd 'Sgwrs Dros Baned' hefyd, gyda chyflwynydd rhaglen 'Gwneud Bywyd yn Haws' Radio Cymru, Hanna Hopwood Griffiths, yn holi wynebau cyfarwydd, gan gynnwys Dysgwr y Flwyddyn, David Thomas.

Amdani
Gŵyl Ddarllen Dysgu Cymraeg
Learn Welsh Festival of Reading








## Supporting Learners

Throughout the year, the Centre and its providers arrange regular events to provide opportunities for our learners to enjoy using their Welsh. During 2020-2021, the following events were organised:

### Sadwrn Siarad Calan Mai
More than 700 learners came together to take part in a virtual Sadwrn Siarad (Saturday speaking practice) at the beginning of May. Lessons were held in the morning and in the afternoon, the learners were given the opportunity to converse and to listen to singer Gwyneth Glyn. The Centre wishes to thank members of the Merched y Wawr women's organisation and Learn Welsh tutors for their help in the afternoon conversation sessions.

### Amdani
The inaugural Amdani Learn Welsh Festival of Reading was held in early March. The aim of the virtual festival was to encourage learners to use and enjoy their Welsh by reading a range of materials. Video stories were broadcast alongside their print equivalents and articles for learners were published on the Golwg360 news website. Additionally, in partnership with the National Eisteddfod, a new, short story by Llŷr Gwyn Lewis and poem by Terwyn Tomos were published. Items were also broadcast on Radio Cymru. The inspiration for the festival came from the success of the Amdani series of books for Welsh learners.

### Siarad
The volunteer Siarad programme, which pairs Welsh learners with Welsh speakers, is going from strength to strength. During 2020-2021, 250 pairs have been meeting, mostly virtually, and a special virtual event was held in July to celebrate the scheme.

### Radio Cymru's Week of Celebration for Learning Welsh
During Radio Cymru's Week of Celebration for Learning Welsh in October 2020, items about, and for, learners were broadcast as part of the station's programmes throughout the week. A vote was held to find Welsh Learners' Favourite Welsh Song and was won by Dafydd Iwan's Yma o Hyd.


### Eisteddfod AmGen
The virtual Learn Welsh Village formed part of the Eisteddfod AmGen (alternative National Eisteddfod), with a full programme of activities. One of the highlights was the Whodunnit evenings. The aim of these interactive evenings was to give learners the opportunity to solve a mystery after reading the short story, Y Treiglad Olaf (the last mutation) by Pegi Talfryn in the Centre's Hwyl yr Haf magazine. 'Sgwrs Dros Baned' (a chat and a cuppa) was also held with the presenter of Radio Cymru's 'Gwneud Bywyd yn Haws' programme, Hanna Hopwood Griffiths, conversing with some familiar faces, including the Welsh Learner of the Year, David Thomas.

DATHLU DYSGU CYMRAEG






# Amcan Strategol 3:




## Ansawdd

Mae'r Ganolfan wedi sefydlu fframweithiau ansawdd cadarn i sicrhau ei bod yn anelu at ragoriaeth wrth roi arweiniad strategol i'r sector. Mae'r fframweithiau yn rhestru dangosyddion ar gyfer gwella ansawdd yn y pum maes a arolygir gan Estyn:

- Safonau.
- Lles ac agweddau at ddysgu.
- Addysgu a phrofiadau dysgu.
- Gofal, cymorth ac arweiniad.
- Arweinyddiaeth a rheolaeth.

## Estyn

Fis Ionawr, gwnaeth Estyn adolygu gwaith y Ganolfan, gan ganmol arweiniad cadarn a phendant y sefydliad, sy'n cadw budd dysgwyr yn ganolog i'w holl weithgarwch.

Yn ôl yr adroddiad, mae gan y Ganolfan "weledigaeth glir i weddnewid tirlun ieithyddol Cymru drwy gefnogi dysgwyr i ddod yn ddefnyddwyr y Gymraeg" gan gyfrannu'n effeithiol at nod Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.



# Strategic Objective 3:




## Quality

The Centre has established robust quality frameworks to ensure it strives for excellence in providing strategic leadership to the Learn Welsh sector. The frameworks list indicators for improving quality in the five areas inspected by Estyn:

- Standards.
- Wellbeing and attitudes to learning.
- Teaching and learning experiences.
- Care, support and guidance.
- Leadership and management.

## Estyn

In January, Estyn conducted a review of the Centre's work, and praised the organisation's firm and robust leadership, which keeps learners' interests at the heart of all its activity.

According to the report, the Centre has "a clear vision to transform the linguistic landscape of Wales by supporting learners to become users of the Welsh language", thus contributing to the Welsh Government's aim of a million Welsh speakers by 2050.

Tynnwyd sylw arbennig at ymateb "chwim ac effeithiol" y sector Dysgu Cymraeg ar gychwyn y pandemig. Fe drodd y cyrsiau yn y dosbarth yn gyrsiau dysgu o bell mewn dosbarthiadau rhithiol, gyda'r platfform digidol, dysgucymraeg.cymru, yn hwyluso'r addysgu, ac yn gartref i gyrsiau cyfunol newydd, yn ogystal ag adnoddau dysgu digidol helaeth.

Daeth Estyn hefyd i'r casgliad bod safonau ac agweddau dysgwyr yn gyson gryf ar draws y sector a bod staff yn cyflawni eu swyddogaethau gydag angerdd ac argyhoeddiad.

Dyma rai o'r pwyntiau eraill gafodd eu nodi:

- Ers ei sefydlu, mae'r Ganolfan wedi datblygu i fod yn llais cenedlaethol, dylanwadol i'r sector Dysgu Cymraeg.
- Mae'r Ganolfan wedi llwyddo i gysoni darpariaeth Dysgu Cymraeg ar draws Cymru, gan greu platfform digidol hwylus a hygyrch sydd wedi galluogi'r sector i ymateb yn llwyddiannus i'r pandemig.
- Mae Cymraeg Gwaith, y cynllun i gryfhau sgiliau dwyieithog mewn gweithleoedd, yn darparu arlwy eang a chynhwysfawr ac yn arloesi'n ddigidol.
- Medda'r Ganolfan ar berthynas gref gyda sawl partneriaeth ddylanwadol, sy'n cyfrannu at sicrhau gwelliannau parhaus i ansawdd y ddarpariaeth i ddysgwyr.




## Cynllun Datblygu'r Gweithlu

Mae prif amcanion Cynllun Datblygu'r Gweithlu wedi eu gwireddu ers ei sefydlu yn Ionawr 2018, gyda nifer o'r targedau yn parhau i ddatblygu ac esblygu.

Sefydlwyd 'Academi' yn 2019 fel cartref hyfforddi holl staff y sector i ddatblygu sgiliau a phrofiadau a magu hyder yn eu gwaith. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cynhaliwyd rhaglen o hyfforddiant cynhwysfawr yn cynnig 25 sesiwn hyfforddiant ar wyth pwnc penodol gyda 1,355 yn manteisio ar y sesiynau hyn. Roedd hynny'n cynnwys cyrsiau rhithiol i gefnogi lles a iechyd meddwl gweithwyr.

Mae'n bwysig bod pawb sy'n gweithio yn y sector Dysgu Cymraeg yn cael cyfle i roi eu barn am y gwaith a'r arweiniad a roddir gan y Ganolfan, fel ei bod yn gallu cynnal rhaglen o welliant parhaus. Mae'r gweithlu yn cael cyfle i ymateb i holiadur blynyddol ac yn 2021, cafwyd yn agos at 250 o ymatebion. Dyma'r prif ganlyniadau:

- 97% yn cytuno eu bod yn teimlo'n falch o weithio i'r sector Dysgu Cymraeg.
- 97% yn cytuno eu bod yn ymwybodol o'r rhan sydd ganddyn nhw i'w chwarae i ddarparu gwasanaeth o ansawdd i ddysgwyr.
- 90% yn cytuno eu bod yn derbyn gwybodaeth yn rheolaidd am ddiweddariadau'r maes yn genedlaethol.
- 90% yn cytuno bod ganddyn nhw fynediad at hyfforddiant a chyfleoedd datblygu.

Mae'r cymhwyster ar gyfer tiwtoriaid Dysgu Cymraeg wedi ei ddiwygio, gyda chymhwyster cenedlaethol newydd o'r enw Dechrau Dysgu. Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin a CBAC enillodd y tendr i ddarparu'r cymhwyster. Gwnaed diweddariadau sylweddol i'r cymhwyster er mwyn ei ddarparu yn rhithiol yn 2020-2021, a chymhwysodd 39 o diwtoriaid.

Academi
Datblygu sgiliau'r gweithlu
Dysgu Cymraeg



Particular attention was given to the Learn Welsh sector's "swift and effective" response at the onset of the pandemic. Classroom-based courses became distance learning courses in virtual classrooms, with the digital platform, learnwelsh.cymru, facilitating the teaching, and hosting new blended learning courses, as well as an extensive range of digital learning resources.

Estyn also concluded that learners' standards and attitudes are consistently high across the sector, and that staff fulfil their roles with passion and conviction.

The other points noted included the following:

- Since its inception, the Centre has developed to become an influential, national voice for the Learn Welsh sector.
- The Centre has succeeded in ensuring consistency in Learn Welsh provision across Wales, creating a convenient and accessible digital platform that enabled the sector to respond successfully to the pandemic.
- Work Welsh, the scheme that aims to strengthen bilingual skills in workplaces, provides a broad and comprehensive offer, and digital innovation.
- The Centre has a strong and constructive relationship with several influential partnerships, thus contributing to ensuring continuous improvements to the quality of provision for learners.




## Workforce Development Plan

The main aims of the Workforce Development Plan have been achieved since it was established in January 2018, with many of the targets continuing to develop and evolve.

'Academi' was established in 2019 to host training for all the sector's staff to develop skills and experiences and to enhance confidence in their work. During the past year, a comprehensive programme of training was delivered, offering 25 training sessions on eight specific aspects, with 1,355 attendees taking up these sessions. This included virtual courses to support workers' welfare and mental health.

It is important that everybody who works in the Learn Welsh sector gets the opportunity to give their opinion on the work and leadership provided by the Centre, so that it can deliver a programme of continuous improvement. The workforce have the opportunity to respond to an annual survey, and in 2021, close to 250 responses were received. The main findings were:


- 97% agree that they feel proud to be working in the Learn Welsh sector.
- 97% agree that they are aware of the role they have to play in providing a quality service for learners.
- 90% agree that they receive regular information about updates in the sector nationally.
- 90% agree that they have access to training and opportunities to develop.

The qualification for Learn Welsh tutors has been reformed, with a new national qualification introduced under the name Dechrau Dysgu (starting to teach). Learn Welsh North West and the WJEC won the tender to develop the qualification. Significant updates were made to the qualification in order to provide it virtually in 2020-2021, and 39 tutors qualified.






# Amcan Strategol 4:




## Platfform Digidol

Mae dysgucymraeg.cymru yn blatfform aml haenog sy'n gartref i lu o adnoddau dysgu digidol, gan gynnwys cyrsiau ar-lein. Mae gan bob dysgwr ardal 'bersonol', Fy Nysgu, lle mae modd iddynt gasglu ynghyd adnoddau perthnasol a monitro eu cynnydd. Mae'r platfform yn ffenestr siop ar gyfer yr holl gyrsiau Dysgu Cymraeg sy ar gael, ac mae'n bosib chwilio, cofrestru a thalu am gwrs ar-lein. Mae'r platfform yn llwyfan cyfathrebu hollbwysig gyda newyddion, erthyglau a chyfweliadau o bob math.

Yn sgîl adolygiad Estyn, gwahoddwyd y Ganolfan i baratoi astudiaeth achos ar sut mae creu platfform digidol wedi galluogi'r sector i gysoni darpariaeth yn genedlaethol, rhannu arferion da ac ymateb yn llwyddiannus i'r pandemig drwy raglenni dysgu o bell.


### Cwrs hunan-astudio newydd

Yn sgîl yr argyfwng iechyd cyhoeddus a'r galw cynyddol am ddulliau hyblyg o ddysgu, am y tro cyntaf, fe gyflwynwyd cwrs hunan-astudio lefel gyfan ar-lein.

Mae'r cwrs lefel Mynediad, ar gyfer dechreuwyr, yn gyfwerth â 120 awr o wersi Dysgu Cymraeg yn y dosbarth, ac mae'n rhan o'r cynllun Cymraeg Gwaith.



# Strategic Objective 4:




## Digital Platform

Learnwelsh.cymru is a multi-layered platform that hosts an extensive range of digital learning resources, including online courses. Each learner has a 'personal' area, My Learning, where they are able to gather relevant resources and monitor their progress. The platform is a shop window for all the available Learn Welsh courses, and it is possible to search, enrol and pay for a course online. The platform is a crucial communication platform with news, articles and interviews of all sorts.

As a result of the Estyn report, the Centre was invited to prepare a case study on how the creation of a digital platform has enabled the sector to ensure consistency in provision nationally, to share good practice and to respond successfully to the pandemic through distance learning programmes.

### A new self-study course

As a result of the public health crisis and the increasing demand for flexible learning methods, for the first time, an online self-study course for a full level was introduced.

The Entry-level course, for beginners, equates to 120 classroom contact hours of Learn Welsh lessons, and it is part of the Work Welsh programme.

Mae'r unedau digidol arloesol hyn yn ymarfer pob un o'r sgiliau iaith. Mae tiwtor ar gael hefyd i gynnig cyngor a chymorth i'r dysgwyr sy'n astudio trwy'r dull hwn. Dros y cyfnod nesaf byddwn yn datblygu cyrsiau hunan-astudio ar lefel Sylfaen a Chanolradd.

### Cyrsiau cyfunol

Mae'r cyrsiau cyfunol yn gymysgedd o ddysgu dan arweiniad tiwtor (mewn dosbarth rhithiol neu wyneb-yn-wyneb) gyda gwaith hunan-astudio ar-lein. Fe gyflwynwyd cwrs cyfunol cenedlaethol ar lefel Mynediad ym mis Mai 2020, ac ers hynny, cyflwynwyd cwrs ar lefel Sylfaen. Dros y cyfnod nesaf byddwn yn datblygu cyrsiau ar lefelau dysgu eraill, er mwyn ateb y galw am y math yma o gyrsiau, sy'n helpu dysgwyr i ddysgu'r iaith yn gynt.

## Fframwaith Digidol

Mae'r platfform yn rhan allweddol o Fframwaith Digidol y Ganolfan, sy'n gosod cyfeiriad i waith digidol y sector Dysgu Cymraeg, gan ddilyn yr egwyddorion canlynol:

- Arloesi.
- Cynnig ystod o gyfleoedd i ddysgwyr ddysgu'n ddigidol.
- Darganfod dulliau newydd o helpu dysgwyr i ddysgu Cymraeg yn ddigidol.

Fel rhan o'r fframwaith, mae'r Ganolfan wedi datblygu'r berthynas gyda phartneriaid annibynnol yn y sector.

### SaySomethinginWelsh (SSiW)

Mae'r Ganolfan wedi llunio cytundeb newydd gyda SaySomethinginWelsh (SSiW). Bydd carfannau o ddysgwyr y Ganolfan yn cael cynnig mynediad am ddim at SSiW, fel adnodd atodol i'w cyrsiau Dysgu Cymraeg. Gall dysgwyr ddefnyddio'r adnoddau i ymarfer y Gymraeg rhwng eu gwersi.

### Duolingo

Mae'r Ganolfan yn barod yn gweithio gyda'r ap iaith Duolingo. Mae'r ap yn defnyddio'r un patrymau iaith â'r cyrsiau Dysgu Cymraeg ac mae cyfeiriadau at Duolingo yn y llyfrau cwrs cenedlaethol. Ers Hydref 2021, mae'r Ganolfan wedi bod yn gyfrifol am gynnal a datblygu adnoddau dysgu'r ap yn y Gymraeg.



Duolingo


saysomethinginWelsh



These innovative digital units practice each one of the language skills. There is also a tutor available to provide advice and support to the learner who is studying through this method. Over the next period, we will be developing self-study courses at Foundation and Intermediate levels.

### Blended learning courses

The blended learning courses combine tutor-led learning (in a virtual class or face-to-face) with online self-study. A national blended learning course at Entry level was introduced in May 2020 and a course at Foundation level has been subsequently introduced. Over the next period, we will be developing courses at other learning levels, to respond to the demand for this type of course, that helps learners to learn the language faster.




## Digital Framework

The platform is a key part of the Centre's Digital Framework, which sets the direction for the digital work of the Learn Welsh sector, using the following principles:

- Innovation.
- Offer learners a range of opportunities to learn digitally.
- Discover new ways to help learners learn Welsh digitally.

As part of the framework, the Centre has developed a relationship with independent partners in the sector.

### SaySomethinginWelsh (SSiW)

The Centre has drawn up a new agreement with SaySomethinginWelsh (SSiW). Cohorts of the Centre's learners will be offered free access to SSiW, as a supplementary resource to their Learn Welsh courses. Learners can use the resources to practice Welsh between their lessons.

### Duolingo

The Centre is already working with the language app Duolingo. The app uses the same language patterns as the Learn Welsh courses and there are references to Duolingo in the national coursebooks. Since October 2021, the Centre has been responsible for maintaining and developing the app's learning resources in Welsh.



## Ymgyrchoedd marchnata

**Ionawr 2021**
Gyda chyfleoedd i ddefnyddio llwyfannau hysbysebu awyr agored yn brin o ganlyniad i'r pandemig, bu'n rhaid canolbwyntio ar ddulliau marchnata digidol yn bennaf i recriwtio dechreuwyr ar gyrsiau Mynediad newydd Ionawr 2021. Defnyddiwyd y cyfryngau cymdeithasol yn helaeth, yn ogystal â Google Search. Cynhyrchwyd hysbysebion radio a ddarlledwyd ar orsafoedd masnachol Capital FM a Heart FM.

**Gwanwyn 2021**
Cynhaliwyd ymgyrch farchnata ar gyfer cynllun peilot cyrsiau Cymraeg yn y Cartref, sef cyrsiau lefel Mynediad wedi'u teilwra ar gyfer rhieni a gofalwyr plant ifanc hyd at 11 oed. Crëwyd tudalen lanio ar dysgucymraeg.cymru, gyda gwahanol opsiynau, o ran diwrnod ac amser, i ddilyn cwrs. Defnyddiwyd dulliau marchnata digidol i arwain dysgwyr at y dudalen honno. Mae'r cyrsiau, a ddechreuodd ddiwedd Ebrill, yn rhai 45 wythnos o hyd ac yn dilyn y tymor ysgol.

**Haf 2021**
Dros yr haf, mae'r Ganolfan wedi canolbwyntio eto ar ddulliau digidol wrth recriwtio ar gyfer cyrsiau newydd Medi 2021. Cynhaliwyd ymgyrchoedd i 'ddenu diddordeb' ac i arwain defnyddwyr at dudalen lanio benodol ar gyfer cyrsiau Mynediad. Cynhyrchwyd pecynnau o adnoddau digidol i'r darparwyr cyrsiau ddefnyddio, i annog dilyniant a denu dysgwyr newydd.
I gefnogi'r ymgyrchoedd, cynhaliwyd gwers flasu genedlaethol, yn rhad ac am ddim, mewn dosbarth rhithiol; cyhoeddwyd cylchgrawn digidol 'Hwyl yr Haf', a chynhyrchwyd astudiaethau achos niferus.

**Cefnogi ymgyrchoedd**
Cydweithiodd y Ganolfan gyda'r Sefydliad Dysgu a Gwaith i hyrwyddo'r Gwobrau Ysbrydoli! Tiwtoriaid blynyddol, Wythnos Addysg Oedolion a'r gwobrau Ysbrydoli!. Fe gefnogodd y Ganolfan Ddydd Miwsig Cymru, ymgyrch Llywodraeth Cymru.

## Ymchwil

Cynhaliwyd Grŵp Ffocws Cydraddoldeb gyda dysgwyr yn ystod y flwyddyn. Fe ystyriodd y grŵp bynciau megis cynrychiolaeth, cynnwys y cyrsiau a marchnata a chyfathrebu. Bydd y Ganolfan a'i darparwyr cyrsiau yn trafod ac yn gweithredu argymhellion y grŵp.









## Marketing campaigns

**January 2021**
With opportunities to use open-air advertising platforms limited due to the pandemic, the focus needed to be on digital marketing approaches to recruit beginners for new Entry-level courses in January 2021. Extensive use was made of social media, as well as Google Search. Radio adverts were produced and broadcast on Capital FM and Heart FM.

**Spring 2021**
A marketing campaign was undertaken for a pilot scheme for Welsh at Home courses, which are Entry-level courses tailored for parents and carers of young children up to 11 years old. A landing page was created on learnwelsh.cymru, with different options, in terms of days and times, for joining a course. Digital marketing methods were used to lead learners to this page. The courses started in late April and run for 45 weeks, following school term times.

**Summer 2021**
Over the summer, the Centre has focused again on digital approaches when recruiting for new courses in September 2021. Lead generation and web traffic campaigns were held to drive users to a specific landing page for Entry-level courses. Digital resource packs were produced for use by the providers, to encourage progression and to attract new learners. To support the campaigns, a free national taster lesson was held in a virtual class; a digital magazine, 'Hwyl yr Haf' was published, and a number of case studies were produced.

**Supporting campaigns**
The Centre worked with the Learning and Work Institute to promote the annual Tutors' Inspire! Awards, Adult Learners' Week and the Inspire! Awards. The Centre supported the Welsh Government's Dydd Miwsig Cymru/Welsh Language Music Day campaign.


## Research

An Equality Focus Group was held with learners during the year. The group considered topics such as representation, course content and marketing and communication. The Centre and its course providers will discuss and implement the group's recommendations.






# Amcan Strategol 5:




### Dweud eich Dweud

Dweud eich Dweud yw'r holiadur barn cenedlaethol i weld sut mae dysgwyr yn teimlo am y ddarpariaeth. Cafwyd 4,036 o ymatebion yn 2020 a dyma rai o'r prif ganfyddiadau:


- Y broses ymrestru yn hawdd – 88%
- Bwriadu dysgu Cymraeg eto y flwyddyn nesaf – 85%
- Tiwtor yn dysgu'r cwrs yn effeithiol – 77% (cytuno'n gryf), 20% (cytuno)
- Tiwtor yn rhoi cyngor i helpu'r dysgwr wella – 65% (cytuno'n gryf), 30% (cytuno)

### Crynodeb o gyllideb y Ganolfan

Ar gyfer y flwyddyn academaidd 2020-2021 dyfarnwyd grant o £1,723,900 i'r Ganolfan tuag at y gwaith o roi arweiniad strategol i'r sector Dysgu Cymraeg a £8,473,000 i'w ddosbarthu i'w darparwyr ledled Cymru. Penderfynodd y Ganolfan ddargyfeirio £125,023 o'i chyllid tuag at gefnogi gweithgaredd darparwyr er mwyn lleihau effaith y toriadau dderbyniwyd i'r gyllideb yn sgîl y pandemig. Cafodd grant Cymraeg Gwaith ei leihau yn y flwyddyn ariannol 2020-2021, yn sgîl y pandemig, i £1,480,000 ond mae'r grant wedi'i adfer, ac yn ystod y flwyddyn ariannol 2021-2022, bydd y cynllun yn derbyn £2,500,000.



# Strategic Objective 5:




### Dweud eich Dweud – the 'Have your Say' survey

Dweud eich Dweud is the national opinion questionnaire to gauge how learners feel about the provision. 4,036 responses were received in 2020 and these are some of the main findings:

- The enrolment process is easy – 88%
- Intend to learn Welsh again next year– 85%
- Tutor teaches the course effectively– 77% (strongly agree), 20% (agree)
- Tutor provides advice to help the learner improve – 65% (strongly agree), 30% (agree)

### Summary of the Centre's budget

At the beginning of the 2020-2021 academic year, the Centre was awarded a grant of £1,723,900 towards the work of providing strategic leadership for the Learn Welsh sector and £8,473,000 to distribute to its course providers across Wales. The Centre decided to redirect £125,023 of its funding towards supporting providers' activity in order to lessen the effects of the cuts made to the budget as a result of the pandemic. The Work Welsh grant was reduced in the 2020-2021 financial year, because of the pandemic, to £1,480,000 but the grant has been restored, and during the 2021-2022 financial year, the scheme will receive £2,500,000.

Crynodeb o gyllideb pob darparwr ar gyfer y flwyddyn academaidd 2020-2021

**Darparwr cyrsiau/Swm**

| | | |
|---|---|---|
| Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin **1,519,366** | | Dysgu Cymraeg Ceredigion - Powys - Sir Gâr **1,170,012** |
| Dysgu Cymraeg Sir Gâr **146,320** | Dysgu Cymraeg Gogledd Ddwyrain **1,040,159** | Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe **851,846** |
| Dysgu Cymraeg Morgannwg **988,795** | Dysgu Cymraeg Sir Benfro **322,878** | Dysgu Cymraeg Gwent **1,128,092** |
| Dysgu Cymraeg Y Fro **301,263** | Dysgu Cymraeg Caerdydd **959,292** | Dysgu Cymraeg Nant Gwrtheyrn **170,000** |

## Llywodraethiant

Cwmni Cyfyngedig dan warant a heb gyfalaf cyfrannau yw'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Unig aelod y cwmni o dan y Memorandwm Cymdeithasu yw Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. Penodwyd Bwrdd Cyfarwyddwyr: Yr Hybarch Randolph Thomas, Maria Stedman, Eifion Griffiths a Geraint Roberts.

Mae agweddau cyfansoddiadol a chorfforaethol y Ganolfan yn gyfrifoldeb i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr. Mae'r Bwrdd yn sicrhau rheolaeth ariannol briodol a thryloyw ynghyd â rheolaeth risg gadarn a chyson. Mae'r Bwrdd, sy'n cwrdd yn rheolaidd, hefyd yn sicrhau perfformiad yn erbyn y prif ddangosyddion perfformiad corfforaethol.

O dan Erthyglau Cymdeithasu y Cwmni, sefydlwyd Bwrdd Ymgynghorol y Ganolfan. Swyddogaeth y Bwrdd Ymgynghorol yw sicrhau bod y Ganolfan:

- yn cyflawni ei hamcanion strategol o ran y sector Dysgu Cymraeg trwy weddnewid y ddarpariaeth i ddysgwyr.
- yn cyflenwi gwasanaethau i'r sector Dysgu Cymraeg yn unol â'r weledigaeth a'r blaenoriaethau a gyflwynwyd yn y cais llwyddiannus i Lywodraeth Cymru.
- yn cytuno ar dargedau cenedlaethol ar gyfer y maes.

**Aelodau'r Bwrdd Ymgynghorol, a benodwyd trwy broses agored, yw:**

| Enw | Tim Hartley | Owain Gruffydd | Dr Jonathan Morris | Rheon Tomos (Cadeirydd) | Nia Parry | Helen Williams |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dyddiad Cychwyn | 1 Ebrill 2016 | 1 Ebrill 2016 | 1 Medi 2017 | 7 Tachwedd 2018 | 1 Ebrill 2019 | 1 Ebrill 2019 |



Budget summary for each provider for the academic year 2020-2021

**Course provider/Allocation**

| | | |
|---|---|---|
| Learn Welsh North West **1,519,366** | | Learn Welsh Ceredigion Powys - Carmarthenshire **1,170,012** |
| Learn Welsh Carmarthenshire **146,320** | Learn Welsh North East **1,040,159** | Learn Welsh Swansea Bay Region **851,846** |
| Learn Welsh Glamorgan **988,795** | Learn Welsh Pembrokeshire **322,878** | Learn Welsh Gwent **1,128,092** |
| Learn Welsh The Vale **301,263** | Learn Welsh Cardiff **959,292** | Learn Welsh Nant Gwrtheyrn **170,000** |

## Governance

The National Centre for Learning Welsh is a Company Limited by guarantee without share capital. The only member of the company under the Articles of Association is the University of Wales Trinity Saint David. A Board of Directors has been appointed: The Venerable Randolph Thomas, Maria Stedman, Eifion Griffiths and Geraint Roberts.

The corporate and constitutional aspects of the Centre are the responsibility of the Board of Directors. The Board ensures appropriate and transparent financial management, together with robust and consistent risk management. The Board, which meets regularly, also ensures performance against the Company's main corporate performance indicators.

Under the Company's Articles of Association, the Centre's Advisory Board was established. The role of the Advisory Board is to ensure that the Centre:

- meets its strategic objectives for the Learn Welsh sector by transforming the provision for learners.
- delivers services to the Learn Welsh sector in line with the vision and priorities presented in the successful bid to the Welsh Government.
- agrees national targets for the sector.

**The Advisory Board's members, appointed through an open process, are:**

| Name | Tim Hartley | Owain Gruffydd | Dr Jonathan Morris | Rheon Tomos (Chairman) | Nia Parry | Helen Williams |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Start date | 1 April 2016 | 1 April 2016 | 1 September 2017 | 7 November 2018 | 1 April 2019 | 1 April 2019 |

Mae gwaith y Ganolfan hefyd yn cael ei archwilio gan Bwyllgor Craffu annibynnol a sefydlwyd gan y Llywodraeth.

**Aelodau'r Pwyllgor Craffu yw:**

- Steve Morris (Cadeirydd)
- Anna Skalistira-Bakratseva
- Dr Helen Barlow
- Richard Houdmont

## Adolygiad Cyflym

Mae'r Ganolfan wedi croesawu argymhellion Adolygiad Cyflym y Llywodraeth o'r sefydliad, a arweiniwyd gan Steve Morris. Nododd yr adolygiad bod y Ganolfan yn cyfrannu'n effeithiol i 'Cymraeg 2050' a'i bod wedi cyflwyno'r Gymraeg i siaradwyr newydd, gyda'r strwythur cenedlaethol yn rhoi sail gadarn i'r sector ar gyfer y dyfodol.

Mae'r Ganolfan yn edrych ymlaen at drafod gyda'r Llywodraeth argymhellion yr adolygiad ar draws pum categori:

- Y Ganolfan fel dylanwadwr strategol
- Ehangu cylch gwaith y Ganolfan
- Darpariaeth y Ganolfan
- Rheoli gwybodaeth y Ganolfan
- Gwaith y Ganolfan yn meithrin partneriaethau




## Staffio

O dan arweiniad y Prif Weithredwr, mae'r Ganolfan wedi'i rhannu'n dair cyfarwyddiaeth. Y Gyfarwyddiaeth Dysgu ac Addysgu sy'n gyfrifol am agweddau cwricwlaidd; y Gyfarwyddiaeth Cynllunio a Datblygu sy'n gyfrifol am gyllid a systemau rheoli perfformiad a phrosiectau amrywiol, gan gynnwys Cymraeg Gwaith, a'r Gyfarwyddiaeth Marchnata a Chyfathrebu sy'n gyfrifol am hyrwyddo'r sector.

Efa Gruffudd Jones
Prif Weithredwr

Dona Lewis
Dirprwy Brif Weithredwr/
Cyfarwyddwr Cynllunio a Datblygu

Helen Prosser
Cyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu

Hannah Thomas
Cyfarwyddwr Marchnata a Chyfathrebu

Niferoedd staff y Ganolfan:

| | |
|---|---|
| Nifer y staff rhan amser | 4 |
| Nifer y staff llawn amser | 15 |
| Cyfanswm: | 19 |



The Centre's work is also examined by an independent Scrutiny Committee set up by Welsh Government.

**The Scrutiny Committee's members are:**

- Steve Morris (Chairman)
- Anna Skalistira-Bakratseva
- Dr Helen Barlow
- Richard Houdmont

## Rapid Review

The Centre has welcomed the recommendations of the Government's Rapid Review of the organization, which was led by Steve Morris. The review noted that the Centre was contributing effectively to 'Cymraeg 2050' and that it had introduced the Welsh language to new speakers, with the national structure providing a robust foundation for the sector in the future.

The Centre looks forward to discussing the review's recommendations across five categories with the Government:

- The Centre as a strategic influencer
- Expanding the Centre's remit
- The Centre's provision
- The Centre's knowledge management
- The Centre's work in developing partnerships




## Staffing

Led by the Chief Executive, the Centre is divided into three directorates. The Teaching and Learning Directorate is responsible for curricular aspects; the Planning and Development Directorate is responsible for finance and performance management systems and special projects, including Work Welsh, and the Marketing and Communications Directorate is responsible for promoting the sector.

Efa Gruffudd Jones
Chief Executive

Dona Lewis
Deputy Chief Executive/
Director of Planning and Development

Helen Prosser
Director of Teaching and Learning

Hannah Thomas
Director of Marketing and Communications

The Centre's staff numbers:

| | |
|---|---|
| Number of part-time staff | 4 |
| Number of full-time staff | 15 |
| Total: | 19 |

# Data

## Cyhoeddi data

Mae'r Ganolfan yn casglu ac yn adrodd ar ddata mewn modd cyson a chywir er mwyn monitro cynnydd ac adnabod tueddiadau. Mae data yn cael eu casglu am holl ddysgwyr y Ganolfan, ac mae'r Ganolfan yn Gyhoeddwr Ystadegau Swyddogol. Y data diweddaraf sydd ar gael yw'r data ar gyfer y flwyddyn academaidd 2019-2020.

## Niferoedd y dysgwyr unigryw

Mae 'niferoedd y dysgwyr unigryw' yn cyfrif pob dysgwr unwaith yn unig, faint bynnag o gyrsiau maent wedi eu dilyn yn ystod y flwyddyn. Yn 2019-2020, roedd 17,505 o ddysgwyr unigryw, cynnydd o 32% o gymharu â 2018-2019.

Niferoedd y dysgwyr unigryw

13,260 ▶ 17,505

2018-2019 | 2019-2020: cynnydd o 32%

## Gweithgareddau dysgu

Gall dysgwyr fynychu mwy nag un gweithgaredd dysgu ar lefel neu ddwyster gwahanol yn ystod y flwyddyn. Er enghraifft, gall dysgwr unigol fynychu cwrs 170 - 259 awr ar lefel Mynediad yn ogystal â chwrs 'fesul awr' megis Sadwrn Siarad yn ystod y cyfnod. Cyfrifir hyn fel dau weithgaredd dysgu. Cymerodd dysgwyr 2019-2020 ran mewn 30,115 o weithgareddau dysgu, cynnydd o 48% o gymharu â 2018-2019.

Gweithgareddau dysgu

20,330 ▶ 30,115

2018-2019 | 2019-2020: cynnydd o 48%

Mae mwy o wybodaeth am ddata'r sector ar gael ar dysgucymraeg.cymru

Bydd y Ganolfan yn cyhoeddi data 2020-2021 ym mis Mawrth 2022.

## Cysylltwch â ni:

**Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol**
Heol y Coleg
Caerfyrddin
SA31 3EP

Ffôn: 0300 3234324
swyddfa@dysgucymraeg.cymru

dysgucymraeg.cymru

@learncymraeg

Dysgu Cymraeg - learnwelsh



# Data

## Publishing data

The Centre collects and reports data in a consistent and accurate manner in order to monitor progress and identify significant trends. Data is collected on all the Centre's learners, and the Centre is an Official Publisher of Statistics. The latest available data is the data for the 2019-2020 academic year.

## Number of unique learners

The 'number of unique learners' counts every learner only once, regardless of the number of courses they have attended during the year. In 2019-2020, there were 17,505 unique learners, an increase of 32% compared to 2018-2019.

Number of unique learners

13,260 ▶ 17,505

2018-2019 | 2019-2020: Up 32%

## Learning activities

Learners can attend more than one learning activity at various levels and intensities during the year. For example, a single learner can attend a 170-259 hour course at Entry level as well as a 'per hour' course such as a 'Sadwrn Siarad' during the period in question. This is considered as two learning activities. The 2019-2020 learners participated in 30,115 learning activities, an increase of 48% compared to 2018-2019.

Learning activities

20,330 ▶ 30,115

2018-2019 | 2019-2020: Up 48%

More information about the sector's data is available at learnwelsh.cymru

The Centre will publish data for 2020-2021 in March 2022.

## Contact us:

**National Centre for Learning Welsh**
College Road
Carmarthen
SA31 3EP

Telephone: 0300 3234324
swyddfa@dysgucymraeg.cymru

learnwelsh.cymru

@learncymraeg

Dysgu Cymraeg - learnwelsh

Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol —
National Centre
for Learning Welsh

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYMRAEG

Dysgu
Learn